# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# CYNGOR CYMUNED
# LLANGRANNOG

2023 / 2024

| | |
|---|---|
| Rhagair gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned | 3 |
| Rôl a Swyddogaethau'r Cyngor | 4 |
| Aelodaeth o’r Cyngor | 7 |
| Gwaith y Cyngor 2023 /2024 | 9 |
| Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol | 12 |
| Mynychu'r Cyngor / Cysylltwch â ni | 13 |

1

# Rhagair gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol Cyngor Cymuned Llangrannog. Mae'n rhoi trosolwg o waith y Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

Bu’r Cyngor Cymuned yn cwrdd yn fisol trwy gyfuniad o gyfarfodydd Zoom, hybrid a wyneb yn wyneb. Diolch i’r dechnoleg am hwyluso’r drefn.

Hoffwn ddiolch i aelodau’r Cyngor am eu cefnogaeth a chyfraniad i’r Cyngor Cymuned yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Diolch hefyd i’r cyhoedd am eu rhyngweithio gyda’r Cyngor sy’n sicrhau bod y Cyngor yn ymateb i unrhyw bryderon yn effeithiol.

Cynghorydd Cynyr Ifan

Cadeirydd Cyngor Cymuned Llangrannog 2023 / 2024

# 2
# Rôl a Swyddogaeth y Cyngor

---

## Rôl y Cyngor

### Gwaith a wneir gan y Cyngor Cymuned

Y Cyngor Cymuned yw'r haen isaf o lywodraeth leol ac mae agosaf at y cyhoedd o ran diwallu anghenion lleol. Mae gan y Cyngor nifer o hawliau a dyletswyddau statudol.

Mae’r Cyngor Cymuned yn gwneud sylwadau ar geisiadau cynllunio cyn i Gyngor Sir Ceredigion benderfynu arnynt. Maent yn darparu cyllid ar gyfer digwyddiadau, clybiau a gwasanaethau yn y Gymuned. Cyflogir contractwyr hefyd i wneud gwaith arbenigol megis atgywirio a chynnal a cadw h.y. torri glaswellt.

Mae’r Cyngor yn penodi aelod i eistedd ar gorff Llywodraethu’r Ysgol Gynradd leol.

### Beth yw strwythur y Cyngor?

Darperir rhestr o'ch cynghorwyr lleol ar y dudalen nesaf. Dechreuwyd y tymor gyda 10 cynghorydd, ond bellach yn 9, un ohonynt yn cynrhychioli blaid wleidyddol. Cânt eu hethol bob 4 blynedd. Cyflogir Clerc/Swyddog Ariannol rhan-amser i ymdrin â'r holl drefniadau ar gyfer cyfarfodydd a pharatoi agenda i ymdrin â'r cofnodion a materion ariannol a gweinyddol sy'n gysylltiedig â gweithredu gwaith y Cyngor.

## Sut mae'r Cyngor yn gweithio?

Bydd unrhyw waith a wneir gan y Cyngor yn cael ei weithredu yn dilyn penderfyniadau a wneir mewn cyfarfodydd agored. Telir am unrhyw waith gydag arian cyhoeddus y mae'r Cyngor yn ei dderbyn drwy godi praesept sy'n rhan o'r Dreth Gyngor a bennir gan Gyngor Sir Ceredigion.

## Beth yw praesept y Cyngor?

Yn 2023/24 pennir praesept y Cyngor ar £10,500.00 Codir y praesept i ariannu cyfrifoldebau'r Cyngor Cymuned gan gynnwys torri glaswellt a chynnal a chadw diffibrilwyr a chyfraniadau i sefydliadau lleol.

Mae'r praesept yn cyfrif am £21.36 fesul eiddo (Band D).

Ildiodd pob cynghorydd eu taliad lwfans blynyddol o £150 ym 2023/2024.

## A all y cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd?

Ar bob cyfrif. Mae croeso i chi fynychu ein cyfarfodydd hybrid fel gwrandawyr yn unig – a byddem yn annog hynny. Fedrwch gysylltu â'r Clerc am fanylion / linc i'r cyfarfod. Nid oes gan aelodau'r cyhoedd hawl i gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Cyngor na rhoi eu barn yn ystod y cyfarfod – fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau eithriadol lle caniateir i'r cadeirydd alw am gyfraniad gan y cyhoedd ac iddynt wneud datganiad. Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor yn fisol, ac eithrio mis Awst, ac fe'u cynhelir fel arfer ar nos Lun gyntaf yn y mis yn Neuadd Goffa Pontgarreg.

## Cyfarfod Blynyddol

Mae'r cyfarfod blynyddol yn rhwymedigaeth gyfreithiol fel y nodwyd yn Neddf Llywodraeth Leol 1972. Rhaid cynnal y cyfarfodydd blynyddol ym mis Mai. Y Cyngor sy'n penderfynu ar y dyddiad. Yr eitem gyntaf ar yr agenda yw ethol Cadeirydd y Cyngor Cymuned am y deuddeg mis nesaf.

## Etholiad

I gael ei ethol yn Gynghorydd rhaid i aelod fod yn gymwysedig o dan y gyfraith, bod yn Ddinesydd Prydeinig a rhaid iddo fod wedi cyrraedd 21 oed.

Rhaid i'r ymgeisydd hefyd fod yn-

- etholwr llywodraeth leol
- wedi meddiannu, yn ystod y deuddeg mis cyfan cyn y diwrnod hwnnw, fel perchennog neu denant unrhyw dir neu fangre arall yn yr un ardal
- mae'r pennaeth, neu'r unig le gwaith, yn ystod deuddeg mis cyn yr etholiad, wedi bod yn y maes hwnnw.
- yn byw yn ystod y deuddeg mis cyfan yn yr ardal honno, neu o fewn tair milltir i'r ardal honno

# 3

# Aelodaeth o'r Cyngor

# 2023/2024

Mae gan Gyngor Cymuned Llangrannog 9 Cynghorydd presennol

| Aelod o'r Cyngor | Tymor y Swydd | Tymor fel Cadeirydd & Is-gadeirydd |
|---|---|---|
| 1. Cynghorydd Cynyr Ifan | 13/05/23 - | Cadeirydd Mai 2023-Mai 2024 |
| 2. Cynghorydd Gareth Jones | 13/05/23 - | Is-gadeirydd Mai 2023 - Mai 2024 |
| 3. Cynghorydd Wendy Roberts | 13/05/23 - | |
| 4. Cynghorydd Deio Evans* | 13/05/23 - | |
| 5. Cynghorydd Gari Jones | 13/05/23 - | |
| 6. Cynghorydd Heledd Clayton | 13/05/23 - | |
| 7. Cynghorydd Lynn Davies* | 13/05/23 - | |
| 8. Cynghorydd Mair Evans | 13/05/23 - | |
| 9. Cynghorydd Morlais Davies | 13/05/23 - | |
| 10. Cynghorydd Anna Stuart** | 04/09/23 - | |

*Fe'u hynwyd yn ystod y tymor. Estynwyd ein cydymdeimlad tuag at eu teuluoedd ynghyd a diolchiadau am eu gwasnaeth dros y blynyddoedd.

**Ymunwyd yn ystod y tymor.

## Perthynas gyda Chyngor Sir Ceredigion

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'n Cynghorydd Sir sy'n mynychu ein cyfarfodydd. Mae e'n gefnogol wrth ymdrin ag ymholiadau gan drigolion mewn perthynas â gwasanaethau, cyflwr ffyrdd ac unrhyw faterion sy'n effeithio ar drigolion.

## Gwefan y Cyngor Cymuned – www.ccllangrannog.org

Mae gan y Cyngor wefan lle mae holl agenda a chofnodion cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi, ynghyd â gwybodaeth ariannol, manylion canlyniadau archwilio mewnol ac allanol a pholisiau'r Cyngor.

# 4

# Gwaith y Cyngor ym 2023/2024

## Cyfleusterau Cyhoeddus yn Llangrannog

Cytunwyd i ariannu'r gost o leoli toiled dros dro yn maes parcio uchaf Llangrannog dros gyfnod yr Haf

## Dathlu Llwybr Arfordir Ceredigion

Cydweithiodd y Cyngor Cymuned gyda'r adan Llwybrau Cyhoeddus y Cyngor Sir er mwyn trefnu dathliad 15 mlynedd o agor y llwybr arfordir.

## Urdd Gobaith Cymru

Cyfrannwyd £100 i gynorthwyo Urdd Gobaith Cymru, Ceredigion gyda'u gwaith yn y Sir.

## Diffibriliwr Neuadd Pontgarreg a Blaencelyn

Y mae'r cyngor yn cynorthwyo gyda chynnal a chadw'r peiriant sydd wedi ei leoli yno.

## Rhaglen Hyfforddiant

Parhawyd ar waith gyda'r cynllun hyfforddiant yn ystod 2023/24 i sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn gwbl ymwybodol o brosesau a chyfrifoldebau'r aelodau a'r Cyngor.

## Polisiau'r Cyngor Cymuned

Adolygwyd nifer o bolisiau newydd yn ystod y flwyddyn.

## Ceisiadau Cynllunio

Caiff Ceisiadau Cyllunio eu hystyried ym mhob cyfarfod ac anfonir sylwadau at yr Adran Gynllunio yn unol â hynny**.**

## Rhoddion Ariannol

Urdd Ceredigion £150.00
Cerebral Palsy £50.00
Ambiwlans Awyr Cymru £250.00
Ysbyty Arch Noa £150.00
Kids Cancer Charity £50.00
Blood Bikes £150.00
Pwll Nofio Aberaeron £100.00
Cronfa Fynwent Capel y Wig £150.00
Urdd Cronfa I Bawb £100.00

# 5

# Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

Y meysydd blaenoriaeth y dylai Cyngor Cymuned Llangrannog eu hystyried yn 2024/25

- Sicrhau parhad a dilyniant gyda’n Rhaglen Hyfforddiant
- Parhau i ddarparu cyfleusterau toiledau ym maes parcio Troed rhiw gam
- Hyrwyddo’r broses o ddarparu cymorth ariannol i grwpiau ac elusennau lleol

# 6

# Mynychu Cyngor Cymuned Llangrannog / Cysylltwch â Ni

## Mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llangrannog

Mae'r Cyngor yn awyddus i weld aelodau'r cyhoedd yn mynychu Cyngor Cymuned Llangrannog.

Ac eithrio eitemau cyfrinachol, cedwir pob busnes yn gyhoeddus.

Cyhoeddir yr holl bapurau agenda cyhoeddus ar-lein 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

Mae modd mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu'n rhithiol.

Os hoffech fynychu cyfarfod, cysylltwch â'r Clerc os gwelwch yn dda.

## Cysylltwch â ni

Mrs Sioned Davies, (Clerc)

Fronhaul,
13 Bro Gido,
Gilfachreda,
Ceredigion.
SA45 9SR.

Wefan:-

https://www.ccllangrannog.org/index.php/cy/

Gwybodaeth Cynghorwyr

https://www.ccllangrannog.org/index.php/cy/cynghorwyr